Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Gorffennaf 2ail 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, July 2nd 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present* – Cynghorydd/*Councillor* Caerwyn Owen, Gwyn James, Melva Phillips, Gareth Evans, Teifi Davies, Walwyn Jones, Barri Davies, Elen Mathias.

**1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorydd/*Councillor* Jonathan Rees, Delfryn Owens, William Anwyl.

**2 Materion Personol/Personal Matters**

Estynnwyd cydymdeimlad â Teifi a'r teulu ar golli chwaer yn ddiweddar.
*Members conveyed their condolences to Teifi and the family on losing a sister recently.*

**3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 4/6/24.**

Cynigiwyd eu bod yn gywir gan Barri a'i eilio gan Teifi.
*Deemed to be correct by Barri and seconded by Teifi.*

**4 Materion yn Codi/Matters Arising**

i) Terfyn Cyflymder 20 mya/*20 mph Speed Limit*

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan Weinidog Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn egluro natur yr adolygiad i'r polisi uchod. Anogwyd y Cynghorau Cymuned i gysylltu â'r Cyngor Sir er mwyn hysbysu'r awdordodau o'n dymuniadau. Cytunwyd yn unfrydol i anfon yr un argymhellion a gyflwynwyd i adroddiad Elin Jones.
*The clerk noted that he had received correspondence from the Welsh Government's Transport Minister explaining the nature of the review to the above mentioned policy. Community Councils were encouraged to inform the County Council of their recommendations. It was unanimously agreed to resubmit the suggestions proposed in Elin Jones' report.*

ii) Cyfarfod Zoom Gwyn/*Gwyn's Zoom Meeting*

Mynychodd Gwyn gyfarfod yng nghwmni'r Asiantaeth Priffyrdd. Yn ystod y cyfarfod cododd bryderon y Cyngor hwn ynghylch diogelwch yr A487. O safbwynt llinellau gwyn dwbwl, awgrymwyd y byddai gwell gobaith pe bawn yn ennill cefnogaeth yr Heddlu. Cytunwyd yn unfrydol y byddai'r Clerc yn gohebu â Heddlu Dyfed Powys er mwyn canfod sawl damwain neu fân ddigwyddiad sydd wedi bod yma yn ddiweddar. Ynghylch diogelwch croesffordd Gogerddan awgrymodd Gwyn mai mater o ddyfal donc fydd hi er mwyn codi'r ymwybyddiaeth.
*Gwyn attended a meeting with the Highways Agency. During the meeting he raised concerns regarding safety along the A487. As regards double white lines, it was suggested we attain Police support. Unanimously agreed that the Clerk corresponds with Dyfed Powys Police in order to ascertain the number of incidents that have occurred here recently. As regards the safety of Gogerddan Junction, it was suggested constant campaigning was needed to raise awareness.*

iii) Meinciau Tresaith/*Tresaith Benches*

Diolchwyd i Melva am fynd ati i ddewis y fainc addas ar gyfer y safle. Awgrymodd Walwyn fod eisiau mesur sail y meinciau yn unigol er mwyn sicrhau bod y fainc addas yn cael ei dewis. Ar y mater hwn cynigiodd fynd i'w mesur ar ran y Cyngor ac yna cysylltu â'r Clerc er mwyn cadarnhau addasrwydd y meinciau.

*Members thanked Melva for her efforts to select the appropriate benches for this location. Walwyn suggested that we measure the foundation of these benches and secure the most suitable bench. He offered to measure the foundations and confer with the Clerk on the matter of purchasing the appropriate bench.*

**5 Cyllid/Finance**

i) Balans/*Balance*

Balans Blaenorol/*Previous Balance* £10808.62

Taliadau a gymeradwyd/*Approved Payments* £2000.00

Balans Newydd/*New Balance* £8808.62

***6 Cynllunio/Planning***

**DIM CEISIADAU/NO APPLICATIONS**

**7 Gohebiaeth/Correspondence**

i) Mynwent Tanygroes/*Tanygroes Cemetery*

Derbyniwyd copi o Adroddiad Blynyddol Mynwent Tanygroes ar gyfer y flwyddyn 2023 gan gynnwys cadarnhad eu bod wedi derbyn rhodd o £150 oddi wrth y Cyngor hwn y llynedd.

*The Clerk received a copy of Tanygroes Cemetery's Annual Report for 2023 which includes a recognition of having received a contribution of £150 from this Council last year.*

ii) Mater trefnu cyfarfod ynghylch tai bach Tresaith/*Arranging a meeting to discuss toilets at Tresaith.*

Eglurodd Gwyn y cefndir i gynnal a chadw'r cyfleusterau hyn yn Nhresaith, ac yn sgil hyn teimlai'r aelodau yr angen am ragor o wybodaeth ynghylch y cynlluniau. Y pryder pennaf oedd amcangyfrif y gost sy'n debygol o ddilyn derbyn y cyfrifoldebau newydd. Mae'r wythnosau nesaf yn rhai prysur ac awgrymwyd y byddai'r wythnos yn dilyn y Sioe yn Llanelwedd yn fwy cyfleus o lawer i drefnu cyfarfod.

*Gwyn explained the background to maintaining these facilities within the community, which led to members' need for further information regarding these plans. The main concern was the estimated increase in costs in the wake of new responsibilities. Due to this busy period, it was suggested that a meeting be arranged after the Show at Llanelwedd.*

**8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

**DIM O GWBL/NOTHING AT ALL**

**9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth Medi 3ydd 2024 am 7.30 y.h.

*The next meeting will be held on Tuesday September 3rd 2024 at 7.30 p.m.*